# Yn yr ysgol gyda'r hen NIC

**HUW WILLIAMS yn cofio**

GAN FY mod yn adnabod Gwilym E. Thomas, Treffynnon, — awdur *Nic* a *Nic Oedd, Nic Fydd* — yn dda, roedd ysgrif Gwyn Thomas yn y rhifyn diwethaf o ddiddordeb arbennig i mi.

Dechreuais ddysgu plant yn Ysgol Ramadeg Treffynnon yn 1949, lle'r oedd G.E.T. yn athro Cymraeg, a thros gyfnod pan oedd yn wael ei iechyd bûm yn dirprwyo iddo, gan astudio (ar ei gais ef) *Nic* gyda rhai o blant iau'r ysgol, a *Nic Oedd, Nic Fydd* gyda phlant yr ail flwyddyn.

Roedd GET wedi gofalu bod cyflenwad da o gopïau o'r naill gyfrol a'r llall yn yr ysgol, a chefais yr argraff bod gan Rhys T. Davies, y prifathro, gryn dipyn o feddwl o'r storïau a'u hawdur!

Da y gŵyr y rhai a fu'n ddisgyblion yn Nhreffynnon pan oedd GET yno ei fod yn athro ysbrydoledig, gyda'i ddulliau arbennig ei hun o ddysgu gramadeg a llenyddiaeth Gymraeg. Gwn am rai sy'n dal i sôn gydag afiaith am ei gyfres o wersi gramadeg a alwai yn 'Verb Villa', a'r rheini yn cael eu darlunio'n fyw gan yr athro!

Roedd GET hefyd yn arlunydd medrus, a mantais fawr iddo wrth ddysgu Cymraeg fel ail iaith oedd ei fod yn medru darlunio pethau'n bwrpasol i'r plant ar y bwrdd du.

Ef oedd yn gyfrifol am ganu cloch yr ysgol, ac fel rheol ef fyddai'r cyntaf o'r athrawon i adael yr ysgol ddiwedd y pnawn. Unwaith y byddai wedi cyrraedd i ddiddosrwydd ei aelwyd o'r ysgol, anaml iawn y gwelid ef yn unman, ar wahân i ymlwybro gyda'i briod o gwmpas y parc cyhoeddus yn Nhreffynnon pan oedd y tywydd yn caniatáu.

Dros gyfnod o wyth mlynedd y bûm yn byw yn Nhreffynnon, ni welais erioed mohono mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus yn y dref. Nid oedd yn arferiad ganddo fynychu cyfarfodydd y gymdeithas Gymraeg (Cymdeithas Cymrodorion Treffynnon), ac ni chredai mewn mynychu cyngerdd na noson lawen.

* * *

GAN MAI Saesnes (neu Gymraes ddi-Gymraeg) oedd ei briod, Saesneg oedd iaith ei aelwyd ddi-blant, a'i brif ddiddordeb yn y fan honno yn ei oriau hamdden yn y cyfnod pan fyddai'n arferiad gennyf ymweld ag ef, oedd canu recordiau clasurol o bob math.

Soniai'n aml mewn sgwrs am ei fro enedigol yn Sir Gâr, a byddai'n sôn hefyd ambell dro am frawd iddo, a oedd ar y pryd yn ficer yn y sir honno, neu ynteu yng Ngheredigion.

Fel y dywed Gwyn Thomas, lluniodd GET rai ugeiniau o sgriptiau i'r BBC mewn cyfresi radio i ysgolion, megis 'Byw yn y wlad', 'Ar grwydr yng Nghymru', a 'Hanes Cymru', ac ar un cyfnod arferai ddweud fod y gwaith hwnnw'n talu'n well iddo'n ariannol na dysgu plant!

Un diwrnod yn yr ysgol, dywedodd wrthyf i rywun fygwth cyfraith arno am iddo aralleirio'r gerdd 'Wil' ('Mae Wil yng ngharchar Rhuthun') mewn sgript Saesneg ar I.D. Hooson a luniodd ar gyfer rhaglen radio i blant, ond fe dderbyniwyd ei ymddiheuriad, a'i sicrwydd na fyddai'n breuddwydio gwneud y fath beth byth wedyn!

* * *

ROEDD ganddo ei syniadau pendant ei hun sut y dylid paratoi sgriptiau radio ar gyfer rhaglenni plant, a chan fod ei arddull bob amser yn ffres ac yn wreiddiol, ni fyddai prinder galwadau am ei wasanaeth.

Pe bai'n derbyn cais am sgript ar William Morgan, dyweder, byddai'n cychwyn ei stori trwy wahodd y plant i gerdded yn ddistaw at ddrws ystafell lle'r oedd William Morgan wrth ei waith, ac yna i sbecian trwy dwll y clo ar yr hyn a fyddai'n debygol o ddigwydd y tu mewn i'r ystafell honno.

Hyd y gwn i, yr unig gyhoeddiad gan GET ar wahân i'r ddwy gyfrol uchod i blant yw llyfryn mewn cyfres grefyddol yn dwyn y teitl *Eleias*, a ddarparodd ar gais Rhys T. Davies, ei brifathro. Credaf fod tri o lyfrynnau yn y gyfres honno; un arall oedd *Eseia* gan R.H. Hughes, gynt o'r Coleg Normal ym Mangor.

Parthed gorchymyn (honedig!) GET i ddosbarth o blant 'Take out your *Nicks*', credaf mai un o straeon y diweddar Wil Vaughan, Bontnewydd, oedd honno. Roedd ef yn dynnwr coes heb ei ail, a bu am dymor yn dysgu Cymraeg yn Ysgol Ramadeg Treffynnon, ac yn cyd-letya ag awdur yr ysgrif hon!

# Y TRYSORAU A GADWODD Y CAPEL

**Gan TREVOR WATTS**

BU EGLWYS y plwyf yn gadwrfa neu'n gronfa erioed. A bu'r capeli hefyd yn diogelu hanes a thrysorau'r Anghydffurfwyr. Ymhlith y tai cyrddau enwog y mae Llanfaches sy'n dathlu 350 mlynedd sefydlu'r Eglwys Annibynnol yn 1639, ac Ebeneser, Pontnewydd, a Mynydd Talwyn, pob un o'r tair yng Ngwent.

Yn aml cawn yn y capeli drysorau gwerthfawr, a hynny yn y dyddiau pan mae cymaint o dorri i mewn a lladrata. Cawn lestri hynafol a diweddar ar ddangos, fel y dylid, ac ambell i gofadail a rhestr cyn-weinidogion a dyddiadau eu gwasanaeth yn y lle.

Allan o'r golwg yn y festri fach mae'r 'safe' yn cynnwys cofrestr priodasau ac ambell hen lyfr eglwys o bwys. Bydd llawer eglwys yn anfon ei dogfennau i'r PRO (Public Record Office) er diogelwch a rhwyddineb i ymchwilwyr hanes teuluoedd lleol. Yn y PRO felly y mae'r casgliad mwyaf o gofnodion a chofrestri gwerthfawr at wasanaeth ymchwilwyr. Ac mae'r bobl sy'n hel achau wedi cynyddu yn ddiweddar.

Yno hefyd gwelir peth hollol annisgwyl mewn un eglwys arbennig, sef y mynegai Mormonaidd, yr I.G.I. Ynddo cawn rai miloedd ar filoedd o enwau a manylion a dyddiadau pwysig yn eu hanes, a'r cyfan wedi ei sylfaenu ar eiriau yr Apostol Paul am y 'Rhai sydd wedi eu bedyddio dros y meirw'.

Ar sail simsan felly y sefydlwyd y mynegai yn gyntaf gan Fred Filby yn Dinas Llyn Halen, U.D. America.

Mae dros 33 miliwn o enwau ynddo ac hyd y gwn i y mae enwau John Jones, John Elias a Pantycelyn ac eraill ynddo wedi eu bedyddio yn Formoniaid, ac wedi troi'u cotiau y tu hwnt i'r Iorddonen ddofn. Ar sail hollol chwerthinllyd felly y seiliwyd y mynegai sy'n cynorthwyo'r rhai sy'n hel achau?

* * *

I DDYCHWELYD at drysorau'r capeli gwelwn fod gan ambell un ychydig o lyfrau yn ychwanegol at Feiblau, efallai lyfrgell fechan o lyfrau diwinyddol, nad oes fawr ddarllen arnynt heddiw er bod rhai wedi eu rhwymo mewn lledr. Un o'r llyfrgelloedd mwyaf gwerthfawr yw'r casgliad o lyfrau'r 'Hen Broffwyd', Edmund Jones, Pontypwl. Mae yno tua 100 o'i lyfrau personol, llawer o'r 17 ganrif, ynghyd â chofrestri a chofnodion y capel.

Weithiau ceir darluniau olew neu brints, ac yn amlach fyth — Oriel Pregethwyr a chenhadon ac ambell Sais fel C.H. Spurgeon.

Yn sir Amwythig y mae'r unig lun y gwyddom amdano o'r hybarch James Owen, yr ysgolhaig blaenllaw o'r 17 ganrif, a gadwodd yr Academy yng Nghroesoswallt cyn ei symud i'r Amwythig.

Ar sail yr academi honno a'i hathrawon disglair y ceisiodd Richard Baxter sefydlu Prifysgol yn y dref. Yn ddiweddar talwyd dros £250 am lanhau darlun olew Francis Tallents, cydweithiwr James Owen, ac y mae eisiau rhyw noddwr arall i lanhau llun James Owen hefyd.

A beth am drysorau eraill? Beth am yr organ sy'n costio cymaint i'w thacluso heddiw, fel mae'r capeli eu hunain yn ei chael yn anodd diogelu'r addurno gwerthfawr a'r lliwiau prydferth sy'n arwain yr addolwr i feddwl am y nefol hyfryd wlad. Ac i ddod at un agwedd dipyn mwy pleserus, beth am y setiau o lestri te? Gweddill sy wedi goroesi efallai, ond mewn ambell gapel ceir cwpwrdd llawn a set gyfan, y tebotiau a'r jwgiau, platiau a'r cyfan yno'n drefnus barchus.

Dim ond ar ymweliad i bregethu yn yr Alban y gwelais set arian at wasanaeth y pregethwr cyn yr oedfa, a choffa da amdani.

Ond efallai y dylaswn eich atgoffa o eiriau'r Meistr, 'trysorwch i chwi drysorau yn y nef lle nad oes gwyfyn na rhwd yn llygru na lladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata'.


*AR WERTH*

***Lewis Jones: Hanes y Wladfa Gymreig**, 1898: £15.*
*Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maes-yr-Efail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed.*
*Ffôn: (0970) 828017*

*Frank A. Murnby (gol.): **The Great World War***
*A.A. Hodge: **Banau Duwinyddiaeth**, 1878. Clawr lledr.*
*Peter Hughes Griffith: **Cofiant W.E. Prydderch***
*Cyfrol o **Y Geiniogwerth** am y flwyddyn 1848.*
*Mrs Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd LL53 8AW.*
*Ffôn: (0758) 88 247.*